**Bwletin y Gwasanaethau Anabledd – Rhifyn 1 – Chwefror 2018**

# Rhoi Sylw i Addysgu Cynhwysol

## Sut mae Gwahaniaethau Dysgu Penodol yn effeithio ar astudio?

"Be

pan

n dod yn fwy amlwg a gall hyn effeithio mwy ar

fft, mewn cyd-destunau gwahanol, ar wahanol adegau, ac o

- **Darllen:** gall effeithio ar gywirdeb, cyflymder, derbyn gwybodaeth yn gyflym a dealltwriaeth. Gall darllen yn uchel beri gofid.
- **Llawysgrifen:** Cyflymder ac eglurder llawysgrifen - efallai y bydd diffyg o ran pa mor rhwydd a rheolaidd yw'r llawysgrifen.
- **Sillafu:** ar y gorau efallai y byddwch yn 'ansicr'.
- **Gramadeg ac atalnodi, y gallu i sylwi ar gamgymeriadau.**
- **Cynllunio, trefnu, strwythuro a rhoi trefn ar syniadau ysgrifenedig.**
- **Cymryd nodiadau:** mae'n bosib y bydd gwrando ac ysgrifennu ar yr un pryd yn amhosibl.
- **Cyfyngiadau o ran cof tymor byr:** yn effeithio ar eich gallu i gofio cyfarwyddiadau, darllen a gwaith ysgrifenedig.
- **Trefniadaeth gyffredinol a rheoli amser.**
- **Gweithio ar leoliad:** darllen a chymryd nodiadau yn gyflym; ysgrifennu cofnodion ac adroddiadau'n gywir, llenwi ffurflenni, gwneud sawl peth ar unwaith.

# Cefnogi ac addysgu myfyrwyr â Gwahaniaethau Dysgu Penodol

Goruchwyliaeth

- Rhoi arweiniad gyda rhestrau darllen a / neu dasgau darllen dan gyfarwyddyd.
- Rhoi digon o amser i gymhathu gwybodaeth a pharatoi atebion i gwestiynau llafar.
- Defnyddio iaith gryno, eglur a chlir a thorri gwybodaeth yn ddarnau llai os yw manylion y dasg yn hir.
- Darparu cyfarwyddiadau ysgrifenedig os oes angen.
- Darparu enghreifftiau a modelau o'r gwaith / aseiniadau y bydd disgwyl i chi eu gwneud.

Darlithoedd

- Defnyddio Panopto pan fo modd neu ddefnyddio fformat arall ar gyfer lledaenu'r wybodaeth.
- Darparu copïau o gyflwyniadau PowerPoint neu unrhyw daflenni, nodiadau darlith, dogfennau trafod, pynciau / nodiadau seminar ymlaen llaw mewn fformat electronig / Blackboard.
- Darparu cyflwyniadau PowerPoint ar gefndir lliw pastel lle bo modd.
- Rhifo sleidiau PowerPoint i gynorthwyo wrth gyfeirio atynt wrth gymryd nodiadau.
- Darparu crynodeb ar ddechrau darlith a chyfeirio yn effeithiol trwy gydol y ddarlith. Ar ddiwedd pob darlith, adolygu'r prif bwyntiau.
- Darparu geirfa sy'n cynnwys y termau allweddol.

Lleoliadau Gwaith

- Sicrhau cyswllt da wrth baratoi - llunio cynllun ar gyfer y lleoliad ar y dechrau gyda'r myfyriwr gan amlygu gwybodaeth a dyddiadau pwysig.
- Rhoi cyfarwyddiadau a gosod disgwyliadau clir a gwirio dealltwriaeth.
- Rhoi cyfarwyddiadau llafar ac ysgrifenedig lle bynnag y bo modd.
- Adnabod a thrafod pryderon / adegau posibl o straen.
- Cymryd sylw o'r arddull dysgu unigol.
- Lle bo hynny'n bosibl, rheoli llwyth gwaith ac osgoi pwysau amser.
- Darparu map o'r adeilad.

Gwaith maes ac astudio dramor

- Rhoi gwybodaeth glir ymlaen llaw am waith maes ac astudiaethau blwyddyn dramor i alluogi'r myfyriwr i ymgyfarwyddo ymlaen llaw.

Marcio

- Cyfeirio at y canllawiau ar gyfer marcio a rhoi adborth i fyfyrwyr â Gwahaniaeth Dysgu Penodol yn: https://www.bangor.ac.uk/studentservices/disability/documents/Awst_17_Marking_Guidelines_Cymraeg.pdf
- Nodwch mewn asesiadau llafar fod gan rai myfyrwyr anawsterau penodol sy'n effeithio ar eu gallu i ganfod geiriau ac ar lif